

# CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHERN

Y Goeden Eirin  
Dolydd  
Caernarfon  
Gwynedd

24 Chwefror 2019

Annwyl Aelod,

Fe gynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor **nos Lun 4 Mawrth 2019**, am 7:30 yr hwyr yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanfrothen.

Atodaf Raglen, ac edrychaf ymlaen at eich gweld bryd hynny.

Yn gywir,

Huw Llwyd Rowlands  
Clerc

## RHAGLEN MAWRTH 2019

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Datgan Diddordeb**
- 3. Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 7 Ionawr 2018**
- 4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**
  - 4.1** Cysylltu Cymunedau
  - 4.2** 13 Garreg Frech
  - 4.3** Mynwent Tan Lan
  - 4.4** Y Ganolfan

4.5 Cyflog y Clerc – Talu Wrth Ennill

4.6 Diogelwch a Chyflymdra Traffig, Llanfrothen

4.7 Canolfannau Iaith Gwynedd

4.8 Syniadau ar Gyfer Cyfarfod Ymddiriedolwyr Portmeirion, Ebrill 2019

## 5. **Gohebiaeth**

(a) Parc Cenedlaethol Eryri – Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd, Cynllun Datblygu Lleol Eryri

## 6. **Materion Ariannol**

6.1 Cyflog a chostau Clerc, Ionawr a Chwefror 2019

6.2 Ad-dalu Clerc, Cyngor Gwynedd Bin brown 2019/20 £33.00

6.3 Torri Gwair Mynwent Tan Lan 17-1-19, Dylan Edwards, £1,800. Talwyd

6.4 Scottish Power £93.46. Talwyd

6.5 Rhoddion Ariannol

(a) Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd

(b) Clwb Ffermwyr Ifanc Meirionnydd

(c) Yr Wylan

(ch) Ysgol Llanfrothen

## 7. **Ceisiadau Cynllunio**

Dim

## 8. **Materion Eraill**

8.1 Adolygu Cludiant Cyhoeddus Gwynedd

8.2 Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad

**8.3** Cytuno ar Ffi Claddu Llwch ym Mynwent Tan Lan

**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

I'w gytuno ar gyfer mis Mai 2019